




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Fframwaith y Polisi
Iechyd a Diogelwch

Tabl of Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Diben	1
3. Cwmpas	1
4. Polisi	1
4.1 Cyd-fynd â Chynllun Strategol y Brifysgol.....	1
4.2 Rheoli'r Risg Iechyd a Diogelwch	1
4.3 Gweithdrefnau a Safonau	2
4.4 Rolau a Chyfrifoldebau	2
4.5 Llywodraethu ac Adrodd ynghylch Iechyd a Diogelwch	4
5. Dolenni at bolisiau / gweithdrefnau eraill	5
6. Rheoli fersiynau'r ddogfen.....	5



1. Cyflwyniad

O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a'r Rheoliadau a wnaed oddi tani, mae'n ddyletswydd gyfreithlon ar Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ddarparu amgylchedd diogel ac iach i fyfyrwyr, staff ac eraill y gallai gweithrediadau a gweithgareddau'r Brifysgol fod wedi effeithio arnynt.

Mae'r Brifysgol hefyd yn ymrwmo i'r canlynol:

- Gweithredu ymrwymiad oddi uchod y rheolwyr i iechyd a diogelwch sy'n treiddio i bob cwr o'r Brifysgol;
- Atal anafiadau ac afiechyd;
- Gwella perfformiad diogelwch;
- Annog pawb ar draws y Brifysgol i gydweithio er mwyn hyrwyddo diwylliant diogelwch cadarnhaol.

2. Diben

Diben y polisi, yn unol â Chynllun Strategol y Brifysgol, bwriad y sefydliad tuag at ei hymrwymiaadau iechyd a diogelwch statudol, a'r fframwaith ar gyfer bodloni'r rhwymedigaethau hyn.

3. Cwmpas

Mae'r polisi'n berthnasol i holl staff, myfyrwyr y Brifysgol ac eraill y gallai gweithrediadau a gweithgareddau'r Brifysgol effeithio arnynt.

4. Polisi

4.1 Cyd-fynd â Chynllun Strategol y Brifysgol

Mae sicrhau bod iechyd a diogelwch yn un o flaenoriaethau'r Brifysgol, ac mae'n rhan o weithgareddau a gyflawnir i ddarparu Cynllun Strategol y Brifysgol.

Yn unol â blaenoriaethau'r Brifysgol a'r galluogwyr allweddol sy'n eu cynorthwyo i'w darparu, mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd diogel ac iach i'w myfyrwyr, staff ac eraill y gallai gweithrediadau a gweithgareddau'r Brifysgol effeithio arnynt.

4.2 Rheoli'r Risg Iechyd a Diogelwch

Mae nodi risgiau iechyd a diogelwch sy'n effeithio ar y Brifysgol yn helpu i'w rheoli yn effeithiol ac amddiffyn staff, myfyrwyr a'r rhai y gallai gweithrediadau, gweithgareddau'r Brifysgol a'i henw da yn gyffredinol effeithio arnynt.

Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch yn cydweithio'n agos â holl gyfadrannau ac adrannau'r Brifysgol i helpu i nodi risgiau a'u lleihau, eu rheoli neu eu dileu.

Rheolir risgiau iechyd a diogelwch trwy broses o asesu risgiau. Asesir gweithgareddau i benderfynu ar eu heffaith. Mae'r broses yn galluogi staff academaidd ac anacademaidd i ddeall effaith risg a nodi'r rheoliadau ac adnoddau mewn meysydd sy'n creu'r risg fwyaf.

Mae asesiadau risg effeithiol yn helpu i nodi'r effaith ar benderfyniadau ynghylch diogelwch pobl. Mae'r risgiau i iechyd a diogelwch wedi eu nodi er mwyn eu rheoli neu eu hatal, ac fe'u cefnogir gan ein harweinwyr ar draws y Brifysgol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut mae'r Brifysgol yn cynnal asesiadau risg ar dudalen Iechyd a Diogelwch y fewnwyd sefydliadol (MyDay).



4.3 Gweithdrefnau a Safonau

Adolygir gweithdrefnau a safonau rheoli fesul blwyddyn, gan helpu'r Brifysgol i gyflawni amcanion diogelwch trwy bennu safonau diogelwch gofynnol clir. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datganiad Bwriad Iechyd a Diogelwch y Brifysgol – dogfen un tudalen sy'n egluro ymrwymiad y Brifysgol i amddiffyn diogelwch pobl. Mae hefyd yn amlinellu bwriad y Brifysgol i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a chreu amgylchedd diogel ac iach ar draws y Brifysgol. Gweler Atodiad 1, y mae copïau ohono ar gael mewn manau amlwg ar draws holl leoliadau'r Brifysgol.
- Fframwaith Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol – sy'n mynd i'r afael â'r modd y rheolir iechyd a diogelwch ar draws y sefydliad.
- Gweithdrefnau a safonau rheoli'r Brifysgol – yn pennu'r safonau sylfaenol i'w defnyddio ar draws y Brifysgol.
- Asesiadau risg y gyfadran /adran a gweithdrefnau / systemau gweithio diogel – asesiadau risg a gweithdrefnau penodol i'w dilyn ar lefel y gyfadran / adran.

4.4 Rolau a Chyfrifoldebau

Defnyddia'r Brifysgol yr hierarchaeth ganlynol i nodi pwy sy'n gyfrifol am wahanol rannau o risg iechyd a diogelwch:

- Cyfrifoldeb y cyfadrannau a'r adrannau yn bennaf yw'r asesiad risg cychwynnol a'r rheolaeth ddilynol o ddydd i ddydd ar risgiau iechyd a diogelwch
- Mae tîm Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn darparu goruchwyliaeth a chymorth ar gyfer rheoli'r risgiau oddi mewn i gyfadrannau ac adrannau, gan herio ac archwilio ffyrdd o weithio a gwneud yn siŵr eu bod yn effeithiol.
- Mae archwilyr allanol wedi eu penodi i adolygu'r rheoliadau diogelwch sydd wedi eu sefydlu i sicrhau eu bod yn ateb y diben.

Amlinellir rolau penodol ychwanegol isod:

Yr Is-Ganghellor (IG)

Cyfrifoldeb cyffredinol yr IG yw darparu amgylchedd diogel ac iach i'n myfyrwyr, ein staff ac eraill y gallai gweithrediadau a gweithgareddau'r Brifysgol effeithio arnynt. Bydd yr IG yn gwneud y canlynol:

- Bod yn eiriolwr cryf o blaid Fframwaith Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, gan fynd ati i'w hyrwyddo a sicrhau y cyflawnir y cyfrifoldebau oddi mewn iddo i staff academiaidd, staff anacademaidd, myfyrwyr ac eraill.
- Cefnogi'r rheini sy'n gydrifol am sicrhau y dilynir polisiâu a gweithdrefnau diogelwch y Brifysgol.
- Cynllunio a darparu adnoddau digonol ar gyfer iechyd a diogelwch.

Y Dirprwy Is-Ganghellor (DIG) Cyllid a Chynllunio (CaCh)

Mae gan y DIG CaCh awdurdod wedi ei ddirprwyo gan yr IG i sicrhau y cyflëir ac y darperir y Fframwaith Polisi Iechyd a Diogelwch ar lefel weithrediadol. Rhaid hefyd i DIP CaCh wneud y canlynol:

- Diweddarw'r IG ac aelodau eraill yr Uwch Dîm Rheoli ar berfformiad iechyd a diogelwch y Brifysgol yn ogystal ag unrhyw faterion diogelwch sylweddol eraill sy'n effeithio ar y Brifysgol.
- Bod yn eiriolwr cyf o blaid Fframwaith Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol a'r holl weithdrefnau diogelwch eraill oddi mewn i strwythur llywodraethu'r Brifysgol.
- Dosbarthu gwybodaeth sydd, o bosibl, yn cael effaith ar y modd y sicheir iechyd a diogelwch yn y Brifysgol i Gyfarwyddwr yr Ystadau a'r Cyfleusterau.



- Adolygu'n rheolaidd ar gyfer iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau y darperir adnoddau digonol.

Cyfadrannau / Adrannau

Mae Cyfadrannau ac adrannau'n gyfrifol am ddiogelwch o ddydd i ddydd ar gyfer myfyrwyr, staff ac eraill y gallai eu gweithrediadau neu eu gweithgareddau effeithio arnynt. Rhaid i gyfadrannau / adrannau sicrhau'r canlynol:

- Bod Deoniaid Cyfadrannau a Phenaethiaid Adran yn eiriolwyr cryf o blaid fframwaith polisi iechyd a diogelwch y Brifysgol a'r holl weithdrefnau diogelwch eraill sy'n berthnasol i'w cyfadrannau gan sicrhau bod yr holl staff, myfyrwyr ac eraill yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelwch.
- Bod holl staff y cyfadrannau / adrannau yn mynd yn gyfrifol am sicrhau iechyd a diogelwch yn eu hamgylchedd eu hunain trwy ddilyn polisiâu a gweithdrefnau diogelwch y Brifysgol a'r cyfadrannau / adrannau.
- Hyfforddiant a goruchwyliaeth ddigonol ar staff a myfyrwyr i sicrhau eu bod yn cyflawni eu gweithgareddau'n ddiogel.
- Y caiff gweithgareddau eu monitro trwy'r broses asesu risg a darparu adnodd priodol er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau'n ddilys.
- Bod eu cyfadrannau neu eu hadran yn gweithredu'n rhagweithiol gyda'r tîm Iechyd a Diogelwch ar wella perfformiad iechyd yn eu hardal.
- Y darperir adnoddau digonol i sicrhau camau i gyfleu a thrafod materion diogelwch oddi mewn i Fforymau Diogelwch y Brifysgol.

Yr Adran Ystadau a Chyfleusterau

Mae'r Adran Ystadau a Chyfleusterau'n gyfrifol am gyrchu, adeiladu, trosi a chynnal adeiladau sy'n ddiogel a darparu'r gwasanaethau a gynlluniwyd i fod yn ddiogel a chyfleusterau sy'n helpu'r Brifysgol i greu amgylchedd gweithio diogel. Yn enwedig, rhaid iddynt wneud y canlynol:

- Darparu / cynnal a chadw offer ar sail y broses asesu risg briodol.
- Darparu'r profion a'r rheoliadau gofynnol ar gyfer cydymffurfio statudol.
- Darparu gweithdrefnau cadarn ar gyfer rheoli contractwyr.

Mae gan yr holl Fyfrwyr a'r Staff Gyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch i wneud y canlynol:

- Dilyn polisiâu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Brifysgol.
- Gofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a staff, myfyrwyr neu ymwelwyr.
- Rhoi gwybod am yr holl ddamweiniau, achosion, achosion trwch blewyn a pheryglon o ran iechyd a diogelwch.

Rheolwr Iechyd a Diogelwch

Elfen allweddol o reoli diogelwch a pherfformiad yn llwyddiannus yw rhoi cyngor iechyd a diogelwch sy'n gymwys. Mae'r Adran Iechyd a Diogelwch yn cynnwys Rheolwr Iechyd a Diogelwch ac Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch. Mae'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am y canlynol:

- Cyflawni rôl 'person cymwys' i'r Brifysgol.
- Pennu gweledigaeth glir a chydlynol a gweledigaeth diogelwch i'r Brifysgol.
- Gweithredu un system rheoli iechyd a diogelwch ar draws yr holl gyfadrannau ac adrannau.
- Datblygu safonau diogelwch syml a chyson ar draws y Brifysgol.
- Cydgrynhau data perfformiad diogelwch a rhoi gwybod am hyn trwy strwythur llywodraethu iechyd a diogelwch y Brifysgol.



- Darparu cymorth, goruchwyliaeth a phan fo angen, her i'r cyfadranau a'r adrannau ar berfformiad iechyd a diogelwch.
- Sganio'r gorwel; asesu'r modd y mae newidiadau deddfwriaethol yn effeithio ar y Brifysgol.
- Cynrychioli a hyrwyddo buddiannau'r Brifysgol yn allanol yn ogystal â cheisio deall arfer gorau yn fewnol a meincnodi yn ôl safonau diogelwch a pherfformiad mewn sefydliadau AU eraill.

4.5 Llywodraethu ac Adrodd ynghylch Iechyd a Diogelwch

Ein strwythur llywodraethu iechyd a diogelwch

Llywodraethu diogelwch yw modd y mae'r Brifysgol yn cytuno ar ei hamcanion diogelwch a'r fframwaith a ddefnyddir i fonitro perfformiad. Mae'r strwythur llywodraethu hwn yn helpu'r Brifysgol i wneud gwell penderfyniadau sydd, yn eu tro, yn arwain at ddiwylliant diogelwch mwy rhagweithiol sy'n cefnogi'r uwch dîm rheoli.

Monitro ein perfformiad diogelwch

Rhan olaf proses asesu risg y Brifysgol yw sicrhau bod prosesau rheoli diogelwch yn gweithio. Bydd y Brifysgol yn mesur perfformiad diogelwch yn ôl polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y gyfadrannau / adran yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Monitro gweithredol

Bydd y Brifysgol yn monitro perfformiad diogelwch trwy bennu targedau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch, gan adolygu tueddiadau o ran damweiniau, gan gyflawni gwaith goruchwyllo ym maes iechyd, cynnal archwiliadau adrannol, nodi a darparu hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag iechyd, ceisio a gweithredu ar adborth. Bydd y targedau'n seiliedig ar welliant parhaus ac wedi eu meincnodi o'u cymharu â sefydliadau AU tebyg pan fyddant ar gael.

Monitro adweithiol

Ymchwilir i ddamweiniau lefel isel ac achosion trwch blewyn gan berson cymwys yn y gyfadrannau neu'r adran. Ymchwilir i bob damwain ddifrifol ac achosion trwch blewyn sylweddol gan berson cymwys yn y gyfadrannau neu'r adran ar y cyd ag aelod o'r tîm Iechyd a Diogelwch.

Adrodd

Rhoddir gwybod am berfformiad diogelwch yn unol â chylch gwaith y pwyllgor fel y'i nodwyd yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, ac a amlinellwyd oddi mewn i Ordinhadau'r Brifysgol, a'u mesur yn ôl amcanion a bennwyd ar gyfer gwelliant parhaus.

Pwyllgor Polisi Corfforaethol

Bydd y Pwyllgor Polisi Corfforaethol yn ystyried ac yn cymeradwyo Fframwaith Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, ac yn gofyn am adolygiadau blynyddol er mwyn sicrhau bod y polisï'n parhau i ateb y diben.

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn cynghori Cyngor y Brifysgol ar reoli risg yn ogystal â monitro a chydlynu archwiliadau mewnol ac allanol.

Yr Isbwyllgor Iechyd a Diogelwch

Yr Isbwyllgor Iechyd a Diogelwch fydd yn darparu goruchwyliaeth gyffredinol ar iechyd a diogelwch. Dyletswyddau'r Pwyllgor fydd:

- (a) Monitro ac adolygu effeithiolrwydd polisïau, safonau a gweithdrefnau'r Brifysgol ynghylch deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol a'r un sydd i ddod.



- (b) Monitro'r gwaith o ddarparu'n effeithiol hyfforddiant, gwaith cyfathrebu, cydweithredu a chyhoeddusrwydd ynghylch iechyd a diogelwch trwy gydol y Brifysgol.
- (c) Sicrhau fod y Brifysgol wedi sefydlu, a'i bod yn adolygu bob blwyddyn, ddatganiad polisi iechyd a diogelwch cywir a chyfredol lle caiff trefniadau iechyd a diogelwch eu diffinio'n glir.
- (d) Ynghylch y tasgau uchod, derbyn yr adroddiadau ar y canlynol:
 - Damweiniau, achosion, achosion trwch blewyn ac ystadegau.
 - Gweithgarwch asiantaeth gorfodi iechyd a diogelwch.
 - Archwiliadau ac ystadegau iechyd a diogelwch wedi eu cynnal a'u cynhyrchu gan y tîm Iechyd a Diogelwch.
 - Ymchwiliadau statudol ac adfer gwaith a nodwyd.
 - Cwblhau hyfforddiant iechyd a diogelwch.

Fforwm Ymgynghorol y Brifysgol ar Iechyd a Diogelwch

Bydd y Fforwm Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod bob chwarter a'r Rheolwyr Iechyd a Diogelwch fydd yn ei gadeirio. Bydd rhanddeiliaid diogelwch allweddol ar draws y Brifysgol yn bresennol. Bydd Fforwm Diogelwch y Brifysgol yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'r perfformiad diogelwch a chydymffurfio ar draws y Brifysgol.
- Nodi a chynllunio ar gyfer unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch ac sy'n dechrau dod i'r golwg.
- Cymeradwyo gweithdrefnau newydd neu ddiwygiadau i weithdrefnau iechyd a diogelwch presennol y Brifysgol.
- Adolygu'r adborth gan gyfadrannau / adrannau ar faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch.
- Gwneud argymhellion i'r Uwch Dîm Rheoli ar yr adnoddau gofynnol i ddarparu'r Fframwaith Polisi Iechyd a Diogelwch.

Y Gyfadrannau / Adrannau

Rhoddir diweddariadau mewn cyfarfodydd pwyllgor cyfadrannol / adrannol. Bydd diweddariadau diogelwch yn:

- Adolygu perfformiad a chydymffurfio o ran diogelwch ar draws y gyfadrannau / adran yng nghyd-destun perfformiad diogelwch cyffredinol y Brifysgol.
- Gwneud cais am adborth ar faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch er mwyn rhoi gwybod i Fforwm Ymgynghorol y Brifysgol ar Iechyd a Diogelwch.
- Cadarnhau'r camau i weithredu allbynnau Fforwm Ymgynghorol y Brifysgol ar Iechyd a Diogelwch.

5. Dolenni at bolisiau / gweithdrefnau eraill

- [Health and Safety Department MyDay page \(Intranet\)](#)

Awdur(on) y polisi:

CRAIG JONES

Rheolwr Iechyd a Diogelwch

6. Rheoli fersiynau'r ddogfen

Rhif Fersiwn	Rheswm dros y newid	Awdur:	Dyddiad y newid:
1.0	Drafft	Craig Jones	



1.1	Drafft – adolygiad gan y Swyddog Gweithredol ar gyfer Polisiâu a Chynllunio	Claire Godden	20.09.18
1.2	Prawf ddarllen terfynol	Claire Godden Rebecca Doswell	26.10.18

(dylai hyn gynnwys taith y polisi trwy strwythur y Pwyllgorau).

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

Ydy'r Polisi'n berthnasol i: AU

Dyddiad cadarnhau: 24/10/2018

Dyddiad effeithiol o: 24/10/2018

Dyddiad adolygu'r polisi: 24/10/2019

I'w gyhoeddi: ar MyDay a'r wefan



Atodiad / Appendix 1

Ein Datganiad o Fwriad ar Iechyd a Diogelwch	Our Health and Safety Statement of Intent
<p>Mae darparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer ein myfyrwyr, staff ac eraill a allai gael eu heffeithio gan ein gweithrediadau a'n gweithgareddau yn gyfrifoldeb yr ydym yn ei dderbyn.</p> <p>Yn unol â'n Cynllun Strategol mae gennym angerdd ac ymrwymiad llwyr i gyflawni safonau uchel o ran iechyd a diogelwch yn barhaus.</p> <p>Derbyniwn ein dyletswyddau cyfredol a pharhaus dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a'r Rheoliadau yn gysylltiedig â hi. Ymrwymwn i ymdrechu'n barhaus i gwrdd â safonau cyfreithiol a rhagori arnynt.</p> <p>Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu a chynnal dull effeithiol o reoli diogelwch sy'n atal anaf ac afiechyd gyda thystiolaeth o welliant parhaus.</p> <p>Deallwn mai'r unig ffordd o gyflawni safonau uchel o ran iechyd a diogelwch yw trwy ymddiriedaeth, gwaith tîm a thryloywder. Anogwn bawb ar draws y Brifysgol i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo diwylliant diogelwch cadarnhaol gan gymryd pob cam rhesymol i ddarparu amgylchedd diogel ac iach.</p>	<p>Providing a safe and healthy environment for our students, staff and others who may be affected by our operations and activities is a responsibility we accept.</p> <p>In line with our Strategic Plan we have an absolute commitment and passion to continuously achieve high standards of health and safety.</p> <p>We accept our current and ongoing duties under the Health and Safety at Work etc. Act 1974 and the Regulations made under it. We commit to continuously strive to meet and exceed legal standards.</p> <p>We are committed to developing and maintaining an effective way to manage safety that prevents injury and ill health with evidence of continuous improvement.</p> <p>We understand that delivering high health and safety standards will only be achieved through trust, teamwork and transparency. We encourage everyone across the University to work together promoting a positive safety culture taking every reasonable measure to deliver a safe and healthy environment.</p>

Yr Athro / Professor Medwin Hughes DL DPhil DPS FRSA FLSW
Is-Ganghellor / Vice-Chancellor

